# Adroddiad Ymgynghoriad ar y Cynnig i Uno

# Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod

# Conwy

**Chwefror 2025**

**This document is also available in English.**

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Ymgynghoriad | 3 |
| 2.1 | Cyhoeddi’r Ymgynghoriad | 3 |
| 2.2 | Gwybodaeth i Blant | 3 |
| 3 | Adborth o’r Ymgynghoriad | 6 |
| 3.1 | Adborth Budd-ddeiliaid a’r Gymuned | 7 |
| 3.2 | Adborth ESTYN | 8 |
| 4 | Asesiad o’r Ymgynghoriad | 9 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddiweddar wedi cwblhau cyfnod ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig i uno Ysgol Glan Gele ac Ysgol y Foryd. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 21 Hydref 2024 a daeth i ben ar 2 Rhagfyr 2024.

Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i God Trefniadaeth Ysgolion gael ei gyflwyno i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu) a rhoi arweiniad iddynt.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd trwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad, yn cyfeirio at ganfyddiadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ceisio ymateb i ymholiadau.

## 2. Ymgynghoriad

### 2.1 Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori'n ddwyieithog ar dudalennau gwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ynghyd â'r holl ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Mae'r tabl isod yn rhestru'r rhai a gafodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion.

| **Enw/Sefydliad** |
|---|
| Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, athrawon a staff Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod |
| Llywodraethwyr Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod |
| Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Emrys ap Iwan, Ysgol San Siôr ac Ysgol Glan Morfa |
| Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru |
| Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru |
| Aelod o'r Senedd ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli ardal y cynigion |
| Cynghorydd Lleol Conwy dros Abergele |
| Cyngor Cymuned Abergele |
| Estyn |
| Undebau Llafur Athrawon a Staff |
| GwE |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy |
| Cymunedau yn Gyntaf Conwy |
| Dechrau'n Deg Conwy |

### 2.2 Gwybodaeth i Blant

Paratowyd Dogfen Ymgynghori i blant er mwyn i'r plant gael cyfle i rannu eu barn am y cynnig i uno Ysgol Glan Gele ac Ysgol y Foryd.

Rhannwyd Ymgynghoriad y Plant gyda'r disgyblion gan y Pennaeth a'r Athrawon.

Roed adborth gan y disgyblion yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r cynnig i uno'r ddwy ysgol ac mae eu hymatebion wedi'u nodi yn atodiad 1.

# Ysgol Glan Gele

# ac

# Ysgol Sant Elfod

Mae ’na gynllun i newid dy ysgol di…

**ac rydyn ni eisiau clywed dy farn di amdano fo…**



## Beth yw’r cynllun?..........

Y cynllun yw i Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod droi’n un ysgol.

## Pam?..........

Rydyn ni eisiau ei gwneud hi’n haws i ti symud o un cam o’r ysgol i’r nesaf. Drwy uno’r ysgolion, mi allwn ni gael un pennaeth a thaith ddysgu fwy hwylus i bawb.

**Sut fydd hyn yn helpu?**

Bydd uno’r ysgolion yn golygu llawer o bethau positif:

**Dysgu’n fwy hwylus:** Bydd yn haws i ti symud o un flwyddyn i’r nesaf heb unrhyw newidiadau mawr.

**Mwy o gyfleoedd:** Bydd mwy o gyfleoedd i ddysgu pethau newydd.

**Dysgu’n well:** Gallwn ddefnyddio’r syniadau gorau o’r ddwy ysgol i dy helpu di i wneud dy orau.

**Cysylltiadau cryfach:** Bydd yr athrawon yn dy adnabod di am fwy o amser, sy’n eu helpu nhw i ddeall sut i dy gefnogi di’n well.

# Beth fydd yn newid?..........

**Un Ysgol, Dau Adeilad:** Yn lle dwy ysgol ar wahân, bydd 'na un ysgol fawr sy'n defnyddio'r ddau adeilad.

**Y Pennaeth:** Un pennaeth fydd yn gyfrifol am yr ysgol newydd. Bydd y pennaeth yn helpu i wneud yn siŵr bod pob dim yn hwylus yn yr ysgol.

**Enw Newydd i'r Ysgol a Gwisg Newydd:** Bydd gan yr ysgol newydd enw newydd, logo newydd a gwisg newydd. Bydd pawb yn gwisgo'r un wisg ac yn dilyn yr un rheolau.

**Gweithgareddau ar y Cyd:** Bydd mwy o gyfleoedd i wneud gweithgareddau gyda phlant o'r ddau adeilad. Mae hyn yn golygu y byddi di'n gallu gwneud ffrindiau newydd a dysgu gyda'ch gilydd.

# Beth fydd yn aros yr un fath?..........

**Dy Athrawon:** Bydd llawer o'r athrawon rwyt ti'n eu hadnabod yn dal yno, i dy helpu i ddysgu a thyfu.

**Dy Ffrindiau:** Byddi di'n dal i weld dy ffrindiau. Efallai y gwnei di hyd yn oed wneud ffrindiau newydd o'r adeilad arall!

**Lleoliadau'r Ysgol:** Bydd yr adeiladau rwyt ti'n mynd iddyn nhw i'r ysgol yn aros yr un fath. Bydd dy ddosbarthiadau di yn yr un lle ag roedden nhw'n arfer bod.

**Dysgu a Hwyl:** Byddi di'n dal i gael gwneud yr un pynciau a gweithgareddau hwyl.

## Camau Nesaf…

**Oes gen ti unrhyw gwestiynau?**

Fe alli di siarad gyda dy athrawon i rannu dy farn a gofyn cwestiynau a byddant yn pasio'r rhain ymlaen at y Cynghorwyr fydd yn penderfynu beth sy'n digwydd nesaf.




**Diolch…**

## 3. Adborth o'r Ymgynghoriad

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, cafodd Gwasanaethau Addysg Conwy 18 ymateb. Mae'r tablau isod yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd. Sylwer bod manylion yr ymgynghoriad ar gael yma: (dolen)

| **Fformat yr ymateb** | **Nifer yr ymatebion a gafwyd** |
|---|---|
| Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad | 16 |
| Llythyr / e-bost | 2 |
| **Cyfanswm a gafwyd** | **18** |

| **Ymatebion wedi'u rhoi gan** | **Nifer yr ymatebion a gafwyd** |
|---|---|
| Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion | 15 |
| Staff yn un o'r ysgolion | 1 |
| Aelod o'r gymuned | 1 |
| Llywodraethwr ysgol | 1 |
| **Cyfanswm** | **18** |




O'r 18 o ymatebion a gafwyd, nid oedd 7 o blaid y cynnig i uno ac mae'r rheiny wedi'u dadansoddi'n grwpiau yn y tabl isod. Fe wnaeth y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig godi pryderon ynglŷn â thoriadau posib' i staffio a chyllidebau o ganlyniad i uno, ynghyd â'r angen am sicrhau arweinyddiaeth effeithiol.

| **Ymatebion wedi'u rhoi gan** | **Nifer yr ymatebion a gafwyd** |
|---|---|
| Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion | 5 |
| Aelod o staff yn un o'r ysgolion dan sylw | 1 |
| Aelod o'r gymuned. | 1 |
| **Cyfanswm** | **7** |

### 3.1 Adborth Budd-ddeiliaid a'r Gymuned

Roedd yr adborth a gafwyd gan rieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned ehangach ar y cyfan yn cytuno â'r cynnig i uno. Mae themâu bras o'r adborth i'w gweld isod.

| Sylwadau o blaid y cynnig | Sylwadau sydd ddim o blaid y cynnig |
|---|---|
| Cysondeb a datblygiad<br>Ystod ehangach o gyfleoedd a chydlyniant gwaith cynllunio<br>Datblygu a gwella addysg a dysgu<br>Gwell adnoddau | Ysgol fawr iawn<br>Manteision yn aneglur; yn benodol o ran staffio ac arweinyddiaeth (gan gynnwys diswyddiadau ar y gweill)<br>Pryderon ariannol<br>Pryderon am y safleoedd presennol |

**Mae enghreifftiau o rai o'r sylwadau cadarnhaol isod:**

- *"Gwych ar gyfer llif addysg i ddysgwyr yn yr ysgol fabanod. Mwy o gysondeb i ddysgwyr. Llai o newid i ddysgwyr ar adeg a allai fod yn un heriol beth bynnag."*

- *"Rydw i'n cefnogi uno'r ysgolion a'r arbedion cymharol sy'n dod yn sgil y cynnig. Fy ngobaith i yw y bydd yr uno'n gallu digwydd mewn modd sy'n amharu cyn lleied â phosib' ar ddysgwyr a staff. Rwy'n derbyn y bydd angen newid go sylweddol i sicrhau addysgu a dysgu yn y modd mwyaf effeithiol."*

- *"Rwy'n meddwl y bydd uno'r ddwy ysgol yn fuddiol iawn i'r disgyblion a'r staff. Bydd manteision mawr o gael pawb yn gwneud yr un peth ac o rannu gwybodaeth ac adnoddau i helpu'r plant i bontio. Rydw i'n meddwl y gall Ysgol Sant Elfod ddysgu llawer gan Ysgol Glan Gele, yn enwedig edrych sut maent yn meithrin annibyniaeth ac ati dros y blynyddoedd i leihau'r naid i flwyddyn 3. Byddai'n braf iddynt ddatblygu rhywfaint o'r brwdfrydedd ynglŷn â dysgu awyr agored a dysgu trwy gyfoethogi profiadau."*

- *"Rwy'n cytuno y byddai'r broses bontio yn llawer haws wrth fynd drwy'r system addysg gynradd. Fel mae hi ar hyn o bryd, byddwn yn awgrymu bod gadael ysgol ym mlwyddyn 2 a symud i Ysgol Sant Elfod ym mlwyddyn 3 yn eithaf brawychus a phryderus i rai plant."*

**Mae enghreifftiau o rai o'r sylwadau oedd yn mynegi pryder gydag ymatebion cychwynnol lefel uchel i'w gweld isod:**

| | |
|---|---|
| *"Alla' i, fy hun, ddim gweld sut y bydd hyn er lles y ddwy ysgol, oherwydd nid yw am arbed swyddi gan ein bod wedi cael gwybod i ddisgwyl diswyddiadau eto yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Nid y bydd barn unrhyw un yn cyfrif gan fod y penderfyniad wedi'i wneud."* | **Nid 'arbed swyddi' yw pwrpas y cynnig i uno. Er hynny, mae arbedion effeithlonrwydd posib' yn y tymor canolig a'r tymor hir o gynnal un ysgol fwy gydag un strwythur arweinyddiaeth.** |
| *"Dydw i ddim wir yn gweld pwynt cyfuno'r ysgolion. Maent i'w gweld yn gweithio fel y maen nhw. Os mai'r broblem yw nad yw'r athrawon o'r ddwy ysgol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yna cyflwynwch system waith papur sy'n gallu cael ei throsglwyddo rhwng y ddwy ysgol. Mae prinder staff yn y ddwy ysgol fel y mae hi ac os oes unrhyw athrawon o'r gwaith yn sâl, weithiau, nid oes digon ohonynt i fod ym mhob man. Gall y staff un-i-un orfod gofalu am 3 neu 4, heb allu treulio'r amser gyda'r rhai sy'n rhedeg i ffwrdd."* | **Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i ddylunio o amgylch cynnydd pob plentyn unigol. Mae'r pwynt pontio o symud o ddarpariaeth fabanod i ddarpariaeth plant iau'n mynd yn groes i hyn i raddau ac mae'n golygu bod angen rhoi barn fel asesiad crynodol ar y disgybl wrth iddynt symud. Nid oes unrhyw arwydd bod diffyg cyfathrebu'n effeithio'n negyddol ac nid yw hynny wedi'i gynnwys o fewn dogfennau'r ymgynghoriad. Byddai potensial i staff symud yn fwy hwylus i gyflenwi ar gyfer absenoldeb mewn ysgol fwy.** |

| | |
|---|---|
| *"Pryderon y gallai'r uno wanhau sefyllfa reoli ysgolion. Nid yw Sant Elfod mor gryf â Glan Gele a byddai'n elwa ar ei phrosesau a'r ffordd mae'n gweithredu mor arbennig. Mae rhywun yn poeni y byddai Glan Gele'n gwanhau i fod yr un fath ag Elfod. Angen cyllid ac ad-daliadau digonol i gefnogi staff a disgyblion."* | **Barn yw hon ac nid yw wedi'i chadarnhau mewn tystiolaeth o arolygon Estyn ar y ddwy ysgol.** |
| *"Mae gen i blentyn yn y ddwy. Rwy'n nerfus gan fod fy mhlant yn hoffi ysgolion bach, ond yn yr un modd, byddai wedi bod yn braf i fy mhlant gael mynd i'r un ysgol, gyda'r un gweithgareddau'n digwydd ar yr un dyddiadau. Rwy'n poeni y gallai safon yr addysg ostwng. Rwy'n teimlo bod Glan Gele'n eithriadol o dda am drefnu ysgol y goedwig, gweithgareddau diwylliannol a chyfleoedd ychwanegol i wneud ystod o weithgareddau hwyliog. Rwy'n teimlo y gallai hwn fod yn gam da. Mae newid bob amser yn anodd a bydd pobl yn poeni am newidiadau i'r enw a'r wisg. Diolch."* | **Bydd y Gwasanaethau Addysg yn parhau i weithio'n agos gyda'r ddwy ysgol cyn uno a gyda'r ysgol newydd i sicrhau ansawdd yr addysg yn rhan o'u Gwasanaeth Gwella Ysgolion.** |
| *"Fel rhiant i blant sy'n mynychu'r ddwy ysgol ar hyn o bryd, ni allaf weld sut y byddai uno o fudd i'r plant."* | **Mae gwybodaeth am y manteision cwricwlaidd ac allgyrsiol i'w gweld yn nogfennau'r ymgynghoriad.** |
| *"Fy mhryder mawr i yw cyflwr adeiladau'r ddwy ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys yr holl 'gabanau'. Rydw i eisiau rhywfaint o sicrwydd y bydd yr asbestos yn cael ei sortio – mater sydd ar y gweill drwy gydol y 35 mlynedd rydw i wedi byw yn Abergele. Hoffwn hefyd weld cyfleusterau toiledau staff yn cael eu gwella. Byddwn hefyd yn argymell yn gryf y dylid ymchwilio rhagor i'r problemau rheoli traffig ar y safle ac ar y strydoedd sydd agosaf at yr ysgol er mwyn gweld a oes unrhyw welliannau mae modd eu gwneud er mwyn diogelu plant a staff. Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi pe bai modd edrych eto ar berthnasoedd gwaith dydd-i-ddydd gydag Ysgol Glan Morfa i sicrhau bod yr holl adnoddau ar y safle'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.* | **Mae Conwy yn monitro asbestos ac unrhyw waith sydd angen ei wneud yn rheolaidd a bydd hefyd yn ystyried unrhyw waith neu uwchraddiadau sydd eu hangen i ysgolion yn rhan o'r prosesau rheoli safle yn y dyfodol a'r rhaglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw.**<br>**Mae cynlluniau rheoli traffig ac asesiadau risg ar gael i ysgolion er mwyn pennu a rheoli traffig a cherddwyr yn ddiogel ar safle eu hysgol. Nid yw ysgolion yn gyfrifol am reoli traffig a cherddwyr y tu hwnt i'w safle ond mae modd gofyn i Dîm Rheoli Traffig a Rhwydwaith Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau neu Heddlu Gogledd Cymru ddod i'r safle.** |

I grynhoi, mae gwybodaeth ynglŷn â staffio a chyllidebau wedi cael sylw yn y ddogfen ymgynghori. Mae Conwy wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag ysgolion, staff a'r gymuned i sicrhau proses bontio esmwyth ac i gynnal safonau uchel o addysg a chefnogaeth i bob disgybl os yw'r cynnig hwn yn symud ymlaen.

### 3.2 Adborth ESTYN

Mae'r adborth a roddwyd yn dangos fod *"Estyn yn ystyried fod y cynnig yn debygol, o leiaf, o gynnal y safon o ddarpariaeth addysg yn yr ardal."*

Dyma sylwadau eraill oedd yn werth eu nodi o fewn yr ymateb:

*"Mae'r Cyngor wedi cynnig rhesymwaith priodol ar gyfer yr ymgynghoriad. Maent wedi adolygu niferoedd disgyblion presennol, cyllid ac addasrwydd adeiladau ysgolion. Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiad dilys o'r cynnig. Maent wedi cyflwyno gwybodaeth gefndirol effeithiol gydag amserlen fras ar gyfer cwblhau gweithdrefnau statudol."*

*“Mae’r Cyngor wedi nodi’n effeithiol prif fanteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig, i gymharu â’r sefyllfa bresennol. Mae’r manteision yn sicrhau parhad mwy effeithiol wrth ddarparu Cwricwlwm i Gymru, arbediad ariannol a mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Mae’r Cyngor wedi cydnabod anfanteision y cynnig, sef yr effaith ar lefelau staffio a’r heriau gweithredol fel gwisg ysgol newydd. Nid oes risgiau penodol yn codi o’r cynnig, gan fod y ddwy ysgol yn rhannu safle yn barod.”*

*“Mae’r Cyngor wedi ystyried yn briodol ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion a’r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae’r cynnig yn rhoi sylw addas i’r canllaw sy’n cynnwys asesiad effaith ar y gymuned. Mae’r Cyngor wedi rhoi ystyriaethau priodol i opsiynau amgen yn y cod.”*

Mae Conwy’n croesawu ymateb Estyn i’r ymgynghoriad ynglŷn â’r cynnig i uno Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod. Rydym yn gwerthfawrogi adolygiad trylwyr Estyn a’u barn “bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.”

Mewn ymateb i’r sylw sydd i’w weld isod, mae ymateb Conwy wedi’i rannu:

| **ESTYN** | **Eglurhad CBSC** |
|---|---|
| **Addysg** | |
| *“Gan fod y cynnig yn golygu uno dwy ysgol, nid oes newid yn y modd mae’r ysgolion yn darparu’r addysg, felly prin yw’r ystyriaeth sydd wedi rhoi i safonau a chynnydd, lles ac agweddau at ddysgu, gan gynnwys grwpiau sy’n agored i niwed, Anghenion Dysgu Ychwanegol a phrofiadau dysgu ac addysgu.”* | Yn unol â’r nodyn, mae gan y ddwy ysgol sydd dan sylw i uno broffiliau Estyn cryf ac adroddiadau arolygon cadarnhaol yn ddiweddar. Fel y nodwyd, nid oes unrhyw newid i’r modd mae ysgolion yn darparu addysg ac felly nid yw Conwy wedi cynnal dadansoddiad manwl o effaith ehangach ar y cam hwn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn rhan o’r cylch rheolaidd o gefnogi a herio trwy agweddau statudol ac anstatudol ar Wella Ysgolion. |

Gellir gweld yr ymateb llawn a gafwyd gan ESTYN yn Atodiad 2 i’r adroddiad hwn.

**4. Asesiad o’r Ymgynghoriad**

Ar ôl ystyried yr ymatebion a’r sylwadau a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, y cynnig i uno yw’r datrysiad mwyaf priodol ar gyfer Abergele o hyd. Y dewis amgen yw cadw’r drefn bresennol o fod â dwy ysgol ar wahân.

Nid oes unrhyw wybodaeth wedi’i chyflwyno yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad a oedd yn golygu bod angen newid dogfen yr ymgynghoriad.

Argymhelliad yr adroddiad hwn yw y dylid cyhoeddi hysbysiad statudol, fel yr ymgynghorwyd arno heb unrhyw newidiadau, i barhau â’r cynnig.

**Atodiad 1 – Ymatebion Disgyblion** (*mae enwau'r disgyblion wedi cael eu newid)*.

**1. Adborth Cadarnhaol**

- *"Dw i'n caru'r ysgol!"*
- *"Mae'n dda achos mi allwn ni fynd i ddosbarthiadau gwahanol."*
- *"Mae'n dda achos mi allwn ni chwarae hefo teganau newydd."*
- *Mae'n dda achos os wyt ti'n colli dy athro neu athrawes, mi alli di fynd i'w gweld nhw."*

**2. Pryderon ac Awgrymiadau**

- *"Efallai y bydd 'na ormod o blant yn chwarae tu allan."*
- *"Dydw i ddim yn hoffi bod efo ysgol newydd."*
- *"Maen nhw'n poeni achos doedden nhw ddim eisiau i ddim byd newid."*
- *"Mae angen i chi ddilyn y rheolau."*

**3. Cwestiynau am yr Uno**

- *"Pam ein bod ni'n uno?"*
- *"Pam ein bod ni'n gwneud ein hysgol yn wahanol?"*
- *"Pam fydd y wisg ysgol yn lliw gwahanol?"*
- *"Beth fydd yr enw newydd?"*
- *"Fydd yr un 'diogel, parod, parch' gennym ni?"*
- *"Sut ydyn ni am roi'r ddwy ysgol gyda'i gilydd?"*
- *"Ydyn ni'n mynd i adeiladu darn newydd?"*
- *"Beth fydd enw'r ysgol?"*
- *"Sut fydd y wisg newydd yn edrych?"*
- *"Pa liw fydd hi?"*
- *"Sut fydd yr ysgol yn y dosbarth?"*
- *"Fydd y cinio yr un fath?"*
- *"Fydd y cogyddion a'r staff cinio yr un rhai?"*
- *"Fydd yr athrawon yr un rhai?"*
- *"Sut fyddwch chi'n rhoi'r ysgolion at ei gilydd?"*
- *"Sut fyddai'r iard?"*
- *"Fyddai gennym ni iard newydd?"*
- *"Fyddan nhw'n sownd wrth ei gilydd?"*
- *"Un ysgol fydd hi, ond sut mai un ysgol fydd hi?"*
- *"Os oedd gennym ni ddau bennaeth yn yr ysgolion ar wahân, ond bod yr ysgolion yn dod yn un, sut fydd 'na ddau?"*
- *"Pan fyddwn ni'n mynd adref, fydd y giatiau'n sownd yn ei gilydd?"*
- *"Beth fydd y logo?"*
- *"Pa liw yw'r wisg ysgol?"*
- *"Pryd fydd hyn yn digwydd?"*
- *"Pam?"*

**4. Cyffro am Newidiadau**

- *"Rydyn ni'n cael gwisg ysgol newydd."*
- *"Gallwn ni gael drws i bob ysgol i'r plant mawr allu chwarae yn ein hysgol ni ac i ni allu chwarae yn eu hysgol nhw."*

## Atodiad 2 – Ymateb ESTYN

### Ymateb Estyn ar ymgynghoriad ar arfaethedig i gyfuno Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod

### Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

### Crynodeb/Casgliad

Mae Cyngor Sir Conwy yn ymgynghori ar y cynnig i uno ysgolion Glan Gele a Sant Elfod. Mae'r cynnig yn golygu cau'r ddwy ysgol yn ffurfiol, ac ail agor ysgol newydd. O ganlyniad i'r ymgynghoriad yma mae'r Cyngor wedi datgan mae'n bosibl y bydden nhw'n penderfynu peidio parhau gyda'r trefniadau presennol, neu greu addasiadau i'r cynllun. Pe bai'r Cyngor yn parhau gyda'r trefniadau nodwyd yn y cynnig, rhagwelir bydd yr ysgol newydd yn agor ym Medi 2026.

Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a'r safonau ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

### Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor wedi cynnig rhesymwaith priodol ar gyfer yr ymgynghoriad. Maent wedi adolygu niferoedd disgyblion presennol, cyllid ac addasrwydd adeiladau ysgolion.

Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiad dilys o'r cynnig. Maent wedi cyflwyno gwybodaeth gefndirol effeithiol gydag amserlen fras ar gyfer cwblhau gweithdrefnau statudol.

Mae'r Cyngor wedi nodi'n effeithiol prif fanteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig, i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r manteision yn sicrhau parhad mwy effeithiol wrth ddarparu Cwricwlwm i Gymru, arbediad ariannol a mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Mae'r Cyngor wedi cydnabod anfanteision y cynnig, sef yr effaith ar lefelau staffio a'r heriau gweithredol fel gwisg ysgol newydd. Nid oes risgiau penodol yn codi o'r cynnig, gan fod y ddwy ysgol yn rhannu safle yn barod.

Mae'r Cyngor wedi ystyried dau opsiwn gwahanol sy'n cynnwys uno'r ddwy ysgol ac adeiladu ysgol newydd. Maent wedi esbonio fod adeiladu ysgol newydd yn anfforddiadwy.

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ni fydd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth cludiant presennol. Mae polisi cludiant y Cyngor yn nodi bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n byw dros ddwy filltir o'u hysgol briodol agosaf.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar leoedd dros ben. Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Glan Gele 11% o leoedd dros ben ac mae gan Ysgol Sant Elfod 10%.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig. Maent nodi nad yw'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg gan fod y ddwy ysgol bresennol yn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r Cyngor yn datgan fod gan y ddwy ysgol ethos Saesneg yn bennaf, gyda chyfarfodydd staff, cyfarfodydd Llywodraethwyr a llai 'na 25% o'r Cwricwlwm yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi nodi'n addas arbedion posibl o'r cynnig. Maent yn amcangyfrif arbediad o £50,931 bob blwyddyn. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo camau trosglwyddo cyllid effeithiol i sicrhau ni fydd yr ysgol newydd dan anfantais ariannol yn y blynyddoedd cynnar.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn dysgu. Maent yn cyfeirio at wybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ble nodwyd arolygiadau cadarn i'r ddwy ysgol. Mae'r Cyngor wedi nodi bydd uno'r ysgolion yn sicrhau cydweithio rhwydd wrth olrhain cynnydd disgyblion, rhannu arferion gorau wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg a galluogi disgyblion a staff i gael mynediad haws at arbenigeddau, adnoddau a chyfleusterau ar draws yr ysgol. Gan fod y cynnig yn golygu uno dwy ysgol, nid oes newid yn y modd mae'r ysgolion yn darparu'r addysg, felly prin yw'r ystyriaeth sydd wedi rhoi i safonau a chynnydd, lles ac agweddau at ddysgu, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed, Anghenion Dysgu Ychwanegol a phrofiadau dysgu ac addysgu. Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith debygol y cynnig i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn cael ei gyflwyno.

Mae'r Cyngor wedi ystyried yn briodol ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r cynnig yn rhoi sylw addas i'r canllaw sy'n cynnwys asesiad effaith ar y gymuned. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaethau priodol i opsiynau amgen yn y cod.